

CERDDI HANES

(CERDDI DOE A HEDDIW)

GAN

T. GWYNN JONES



HUGHES A'I FAB


Cym
891.6612

GW 3359742 1



1/6

00011



CERDDI HANES

(CERDDI DOE A HEDDIW)

GAN
T. GWYNN JONES

Argraffiad Newydd Diwygiedig.


WRECSAM:
HUGHES A' I FAB
CYHOEDDWYR

1930

MADE AND PRINTED IN GREAT BRITAIN

RHAGAIR.

GAN fod y cerddi hyn allan o brint ers amser, a bod yn amhosibl i'r ysgolion a'r dosbarthiadau a fydd yn eu hymofyn gael copïau ohonynt, argreffir hwy ar eu pennau eu hunain fel hyn, mewn plygiad hwylus. Gadawyd allan ambell bennill dianghenraid, a dwy neu dair o gerddi o natur bersonol a argraffwyd eisoes mewn cyfrol neu gyfrolau eraill.



CYNNWYS

	TUD.
CERDDI DOE:	
MERCH Y MYNYDD	9
CARADOG	14
ARTHUR GAWR	18
OGOF ARTHUR	22
MAELGWN GWYNEDD	27
CORON CADWALLON	32
CYNFRIG HIR A'R BRENIN	38
OWAIN A NEST	43
GWENLLIAN	54
EDNYFED FYCHAN	59
CERDDI HEDDIW:	
YR HEN FFERMWR	66
YR HEN LAFURWR	72
GWEINIDOG LLAN Y MYNYDD	77
Y BARDD	82
Y CONACH	86
NODIADAU	91
GEIRFA	93



Cerddi Doe.

Merch y Mynydd.

I.

I HELA aeth mab y Brython un dydd,
A chrwydrodd ymhell o dŷ ei dad ;
Ar ôl ei gŵn ar drywydd yr hydd
Cyrchodd y wyllt anghyfannedd wlad.

A'r haul yn uchder y nef, e ddaeth
I lannerch werdd yng nghanol y coed,
A sefyll yno dan lwyn a wnaeth—
Ni welsai fangre brydferthach erioed.

Teg oedd y dail a'r blodau i gyd,
Glân oedd y mwsogl aur dan droed,
Ond tegach y ferch a safai'n fud
Dan fedwen arian yng nghwr y coed.

Du oedd ei gwallt fel cwmwl y nos
Pan na bo seren ar faes y nef,
A thonnog megis merddwr y rhos
Pan grycho awel ei wyneb ef.

Gloywddu a dwfn oedd ei llygaid hi,
Llygaid a welai freuddwydion syn ;
Ei thâl cyn wynned ag ewyn lli,
A'i mynwes megis yr eira gwyn.

CERDDI DOE

A'r Brython eto'n ei gwylio'n fud,
Canu yn beraidd a wnaeth y ferch,
A theimlodd yntau ryfeddol hud
Y gân, a'i galon yn glaf o'i serch.

Mynnai y Brython ei dal a'i dwyn
Adref yn wraig iddo ef ei hun ;
Neidiodd yn hoyw o gysgod ei lwyn—
Hoywach i'r coed y neidiodd y fun.

Chwiliodd yntau amdani yn hir,
A gwelodd hi'n dringo'r clogwyn fry ;
Clywodd ei chân yn groyw ac yn glir
Fel y diflannai mewn ogo ddu.

Ac âi y Brython beunydd ei hun
I'r llannerch werdd dan glogwyn y rhos
I ddisgwyl eto weled y fun
Ag wyneb y dydd a gwallt y nos.

Clywodd ei chanu megis o'r blaen,
Mynych y gwelodd hithau ei hun
Fry yn ei wyllo yng nghysgod maen,
Yna, fel breuddwyd, diflannai'r fun.

Safodd ar odre'r clogwyn mawr
Un dydd, a galw pan welai hi :
“ Riain y mynydd ! dyred i lawr,
Tegach na merched y glyn wyt ti ! ”

MERCH Y MYNYDD

Clywodd ei hateb o ben y maen

(Mwyn oedd ei llais fel murmur y lli) :

“ Fab y gwastadedd, dyred ymlaen,
Cryfach na meibion y graig wyt ti ! ”

“ Dyred, mae gennyf, riain y bryn,
Wartheg a meirch yn y glyn islaw ; ”

“ Mae gennyf innau, bennaeth y glyn,
Ddefaid a geifr ar y creigiau draw. ”

“ Dyred i'm canlyn, tegach wyt ti
Na'r fun wallt-felen a'r llygad glas ; ”

“ Gwae fi pe down ar ei chyfyl hi—
Mawr yw ei chariad, mwy yw ei chas. ”

“ Gwae a fo gas wrth a garwyf i,
Deffro fy nghleddau, nid oes a'i baidd ; ”

“ Creulon a llym yw dy arfau di,
Garwach eu brath na dannedd y blaidd. ”

“ Creulon a llym yw fy arfau i,
Eto er garwed eu brath yn awr,
Pyled eu min cyn dy daro di,—
Riain y mynydd, dyred i lawr. ”

“ Fab y gwastadedd, pe deawn i,
Beth gyda thi a fyddai fy myd ? ”

“ Priod y pennaeth a fyddit ti,
Pen ar rianedd y llys i gyd. ”

“ Hardd yw dy rodiad ar draws y bryn,
Cryfach wyt ti na meibion y graig ;
“ Tegach dithau na merched y glyn,
Riain y mynydd, bydd imi'n wraig.”

“ Priod y pennaeth a fyddaf i,
Pen ar rianedd y llys i gyd,
Ond os ag arf y'm cyffyrddi di,
Mwy ni'm gweli er chwilio'r byd.”

A dug y Brython yn llon ei wedd
Ferch y Mynydd i dŷ ei dad,
Lle bu yn arglwyddes llawer gwledd
A'i chân yn swyno gwŷr y gad.

II.

Un dydd i hela'r hydd ar y rhos
Aeth y Brythoniaid o lys y glyn,
Y pennaeth ar farch cyn ddued a'r nos,
A'i wraig i'w ganlyn ar balffrai gwyn.

Cododd yr hydd a chanwyd y cyrn,
A'r Arglwydd, tynnu ei fwa a wnaeth,
Oni chyffyrddodd wrth droi yn chwyrn
Law ei arglwyddes â blaen y saeth.

MERCH Y MYNYDD

Clywsant y ddolef dristaf erioed,
Ac yna gwelwyd y palffrai gwyn
Draw yn carlamu, ac yn y coed
Collwyd yr olwg ar ferch y bryn.

Chwiliodd y pennaeth yn hir ei hun
Drwy goed y glyn, hyd fynydd a rhos,
Ond mwy ni welodd llygad mo'r fun
Ag wyneb y dydd a gwallt y nos.

Pan wylai'r plant am weled eu mam,
Rhyw ganu trist a glywai y tad :
“Cadw fy merch rhag gofid a cham,
A chadw fy mab rhag perygl y gad !”

Caradog.

Hyd ystrydoedd dinas Rufain
Tyrra lluoedd gyda'r wawr ;
Gwelir wrth eu gwisg a'u crechwen
Ddyfod rhyw ddiwrnod mawr.

Dros y môr yn nhir y Brython,
Hir a chyndyn ydyw'r gad ;
Ond lle methodd grym a gwryd,
Lluniodd ystryw benyw frad.

I fodloni nwydau'r dyrfa,
Boblach o bob llun a lliw,
Dygir heddiw'n garcharorion
Rai a fu elynion gwiw.

Pennaf o'r gelynyon hynny
Oedd Caradog, borth ei wlad ;
Nid oedd a safasai rhagddo
Pe buasai deg y gad.

Trechodd am flynyddoedd meithion,
Lengoedd Rhufain dro ar dro,
Brad a'i daliodd yn y diwedd—
Parth y bai ni byddai ffo.

CARADOG

Wele'r milwyr yn ymdeithio
A'u baneri yn y gwynt ;
Yn eu canol mewn cadwynau
Mae a fu benaethiaid gynt.

Cerddant draw yn drist eu golwg,
Ond mae acw yn eu mysg .
Un a gerdda'n frenin eto,
Er y gadwyn drom a lusg.

Cenfydd hithau, 'r dorf Rufeinig,
Mai efô yw'r gŵr fu gynt
Yn gwasgaru ei byddinoedd
Fel y dail o flaen y gwynt.

Meddant : “ Dacw ef y Brython ! ”
Yna llefant am ei waed ;
Ond ni syll y Brenin arnynt
Mwy na'r llwch o dan ei draed.

Dygir ef i'r llys odidog
Lle mae mawrion fwy na mwy,
Oll yn disgwyl am ei weled,
A'r ymherodr gyda hwy.

Yna erchir iddo blygu
I'r ymherodr ar ei sedd ;
“ Beth ! ” ebr ef, a'i law yn ofer
Chwilio lle bu carn ei gledd.

“Plygu iti?” medd Caradog,
 “Nid tydi ar faes y gad
 Aeth a’r dydd, a daliwyd finnau,
 Nid trwy frwydrau, ond trwy frad.

“Os wyt ti yn frenin Rhufain,
 Brenin finnau fel tydi;
 Ac anrhydedd fy hynafiaid
 Dewrion, nis difwynaf i.

“Yn fy ynys, ar genhedloedd
 Lawer y teyrnaswn i,
 Ac nid gormod gennyf ymladd
 Drostynt hwy i’th erbyn di.

“Yn dy wychter mawr a’th gyfoeth,
 Ba ryw beth a fynnit ti?
 Gwael it geisio dwyn ein hynys
 Fechan oddi arnom ni.

“Rhyddid, onid gwerthfawr ydyw
 Hwnnw yn dy olwg di?
 Rhyddid, gwerthfawroced ydyw
 Hefyd yn ein golwg ni.

“Dygaist fi’n garcharor yma,
 Grym a roddas Ffawd i ti—
 Eto gwybydd, Brenin ydwyf,
 Ac nid byw a’m plygo i!”

CARADOG

Ac ni allodd pennaeth Rhufain
Lai na theimlo'r ennyd hon
Fod yn sefyll mewn cadwynau
Yno Frenin ger ei fron.

“Dygwyd di'n garcharor yma,”
Meddai, “ond ni'th laddaf i,
Canys gwir mai Brenin ydwyt,
Cei dy ryddid yma, di!”

Arthur Gawr.

MAE galar drwy Ynys Brydain,
 Nid dewr y gelyn, ond bas—
 Gwenwyn yn nwfr y ffynnon a roed,
 Ac Uthr Bendragon a las.

O goedydd duon y gogledd,
 O nentydd dyfnion y de,
 O'r dwyrain llyfn a'r gorllewin llwyd,
 Daw'r gri "Pwy a leinw ei le?"

Prysur y cyrch y penaethiaid
 Gaer Ludd o gyrrau y wlad,
 I ddewis unben Prydain a rhoi
 Y goron i lyw y gad.

Daw rhai o dueddau'r gogledd
 A'u gwisg yn felyn a glas,
 Fel blodau'r banadl a dail y pîn,
 I'w canlyn mae llawer gwas.

O diroedd y de daw eraill
 A'u gwisg yn goch ac yn ddu,
 Coch fel y gwaed a du fel y nos;
 I'w canlyn hwythau mae llu.

Daw eraill o duedd y dwyrain
 A'u gwisg yn wineu a rhudd,
 Gwineu a rhudd fel gwenau'r haul
 O'r dwyrain ar doriad dydd.

ARTHUR GAWR

Daw llawer o du'r gorllewin
A'u dillad yn wyrdd a gwyn,
Gwyrdd fel irddail ar lwyni'r haf,
Gwyn fel ôd gaeaf ar fryn.

Ond ofer yw cymryd cyngor,
Nid ydyw'r penaethiaid gytûn ;
Gwych gan bob un pe gallasai ef
Ennill y goron ei hun.

Dair gwaith bu gyfarfod a chyngor,
A theirgwaith oferwaith fu,
Ac yna y dywaid Myrddin air,
A doeth oedd ym marn y llu.

“Gosteg, benaethiaid,” medd Myrddin,
“Mawr yw caledi ein gwlad,
A'r gelyn du yn anrheithio'n tir,
Pwy a fydd flaenor y gad?”

“Bydded i chwi yr offeiriaid
Heno weddio ar Dduw
Ar roddi ohono arwydd gwir
Pwy a fydd inni yn llyw.

“Ac yno dewiswn hwnnw
A thyngwn yn enw'r ffydd
Y mynnwn drechu'r gelyn traws,
A chadw y deyrnas yn rhydd.”

Gorffwys a wnaeth y penaethiaid
 Bob un ar ei darian gref,
 A'r gwŷr o grefydd a'u gweddi'n daer
 Ar Dduw am ei arwydd ef.

A threiglodd y noswaith honno
 A cherdded ei horiau'n hir,
 A phawb yn disgwyl am wawr y dydd
 I ddangos yr arwydd gwir.

Ac weithian y daw'r rhai dewrion
 A'r wawr ar eu harfau'n glaer ;
 A daw'r offeiriaid o'r eglwys draw
 Yn araf at borth y gaer.

Ar lawnt agored y castell
 Saif maen megis darn o fur,
 Ac eingingion dur yng nghanol y maen,
 A chledd hyd ei garn yn y dur.

Ac ar y maen ysgrifen,
 Ysgrifen aur ydyw hi,—
 "A dynno'r cledd o ganol y dur,
 Hwnnw a fydd y rhi."

Yno i dynnu'r cleddyf
 Daw enwog a chedyrn wŷr,
 Ond nid oes un a all lacio'r llafn
 Yng nghanol yr eingingion dur.

ARTHUR GAWR

Brenhinoedd gogledd a deau,
Gorllewin a dwyrain dud,
Ceisiant yn ofer a throant draw
A siom ar eu gwedd i gyd.

A dywed y pen offeiriad :—
“ Am nad oes a'i tynno ef,
Nid oes a haeddai yn frenin fod
Yn ôl dangosiad y nef.”

Ond cyn eu myned ymaith,
Un arall a ddaw ymlaen,
A chwardd y penaethiaid o weled llanc
Yn neidio i ben y maen.

Yntau a blyg yn ystwyth
A chydio yng ngharn y cledd,
A'i dynnu a'i chwyfio uwch ei ben,
A gwên yn goleuo'i wedd.

“ Wele ein teyrn,” medd Myrddin,
“ Arthur fab Uthr ydyw ef,
Gwledig yr ynys o union dras
Yn ôl dangosiad y nef !”

A gwaedd a rydd y penaethiaid,
A'r llu a'u hetyb yn awr—
“ Byth bydded ynys Brydain yn rhydd,
A byw fyddo Arthur Gawr !”

Ogof Arthur.

I.

RHODIAI gŵr yn araf unwaith
Heibio'r llannerch yng Nghaer Ludd,
Lle bu lys yr hen Frythoniaid—
Gwych oedd hwnnw yn ei ddydd.

Estron oedd y gŵr a chrwydrad,
Tlawd a thruan ar ei hynt,
Ac ni wyddai'i fod yn rhodio
Lle bu gastell Arthur gynt.

Llaes ei wallt a llym ei lygad,
Byr ei gam a'i gefn yn grwm,
Ar ei ffon las onnen gnapiog,
Pwyso'r oedd y gŵr yn drwm.

Ag efô yn mynd yn araf,
Araf heibio'r lle bu'r llys,
Daeth rhyw henwr i'w gyfarfod,
Safodd, cododd arno fys.

Yntau'n dal i gerdded rhagddo,
"Aros," medd yr henwr llwyd,
"Ni bydd ofer iti wrando,
Aros, onid Cymro wyd?"

Yna safodd yntau'r estron ;
Meddai, " Cymro ydwyf i
Wedi gadael gwlad ei dadau ;
Dywed beth a fynnit ti."

Medd yr henwr bychan yntau,
" Mynnwn i yr hyn a ddaw ;
Ple y cefaist ti y pastwn
Onnen yna sy'n dy law ? "

" Eiddof ydyw," medd yr estron,
" Ni waeth ble y cefais hi ;"
" Gwrando," medd yr henwr yntau,
" Gwell it pe'm atebit ti."

" Torrais hi ar lethr Elidir,
Lle mae llwyni cyll ac ynn,"
Medd yr estron, yntau'n henwr,
Gwrando'r oedd a syllu'n syn.

Meddai : " Tyfodd hon ar foncyff
Sydd o'r golwg yn y llawr,
Ac o dan y boncyff hwnnw
Y mae genau ogof fawr.

" Cwsg y brenin a'i farchogion
Yn yr ogof uthr ei maint,
Oni ddêl a'u geilw i ymladd
Eto dros eu bro a'u braint.

“ Cwsg y drudion dan eu harfau
 Oll o gwmpas Arthur gawr ;
 Yn y canol mae trysorau,
 Meini gwyrth a golud mawr.

“ Mae ynghrôg wrth gadwyn haearn
 Gref yng ngenau'r ogo gloch,
 Pan gyffyrdder tafod honno,
 Cân yn uchel ac yn groch.

“ Ar ei chaniad, try'r marchogion,
 Twrf eu heirf yn clecian fydd ; .
 Cyfyd pawb ei ben a gofyn
 Arthur Gawr “ A ddaeth y dydd ? ”

“ Ac o daw ar hynny'r ateb
 Iddo, “ Cwsg, ni ddaeth yr awr,”
 Gorwedd Arthur a'i farchogion
 Eto yn eu trymgwsg mawr.

“ Cysgant oni ddêl a etyb
 Felly ‘ Deffro, daeth y dydd ; ’
 Cyfyd Arthur a'i farchogion,
 A daw'r Brython eto'n rhydd.”

Troes y gŵr yn syn i holi,
 Holi am yr ogof fawr,
 Ond nid oedd yr henwr yno—
 Aeth fel pe'i llyncasai'r llawr.

II.

Crwydrodd yntau'r gŵr a'r onnen,
 Daeth hyd lethr Elidir fawr,
 Ac fe gafodd yno'r boncyff
 Oedd o'r golwg yn y llawr.

Troes y boncyff draw, a chafodd
 Enau'r ogo dano'n glir ;
 Ac wrth gadwyn haearn yno
 Crogai cloch a thafod hir.

Aeth y gŵr i mewn yn araf,—
 Crynu'r ydoedd yn ei fraw,
 Weled Arthur a'i farchogion
 Yno'n cysgu ar bob llaw.

Gloywon ydoedd eu tariannau
 Fel y lloer pan fo yn llawn,
 A'u cleddyfau yn disgleirio
 Megis pelydr haul brynhawn.

Dug y gŵr o'r trysor lawer,
 Ond wrth fyned heibio'r gloch,
 Fe'i tarawodd oni chanodd
 Hithau'n uchel ac yn groch.

Troi a ddarfu i'r marchogion
 Oni thinciai'r arfau'n rhydd,
 Cododd pawb ei ben a galwodd
 Arthur Gawr, " A ddaeth y dydd ? "

CERDDI DOE

Yna cofiodd ac atebodd
Yntau "Cwsg, ni ddaeth yr awr ;"
Suddodd Arthur a'i farchogion
Oll yn ôl i'w trymgwsg mawr.

Lawer tro bu'r gŵr yn chwilio
Am yr ogof wedi hyn,
Ond ni welodd fyth mo'r llannerch
Rhwing y llwyni cyll ac ynn.

Ond pan ddêl yr awr, daw'r arwr,
Etyb "Deffro, daeth y dydd,"
Cyfyd Arthur a'i farchogion,
A daw'r Brython eto'n rhydd.

Maelgwn Gwynedd.

MAE lluoedd yr Eingl o'r tir yn torri
Cymru Cunedda Wledig yn ddwy,
A lladron môr ar draeth y gorllewin
Yn gwibio a glanio fwy na mwy.

A Maelgwn Gwynedd, anfonodd ddyfyn
At dywysogion gwlad Gymru oll,
Maent hwythau erbyn heno'n gwersyllu
Ger Aberdyfi, heb un yngholl.

Llawer ystafell sy dywyll heno,
Heb dân, heb gerddau, heb fedd na gwin ;
A llawer pennaeth ar faes yn huno
A bardd dan arfau yn gwarchod ffin.

A bardd a'i bwys ar ei wayw yn syllu
Draw tua'r môr dros y tywyll ros,
Lle'r oedd y bore dyrau mynachlog,
Fflamau a genfydd drwy wyll y nos.

“ Och ! ” medd y bardd, “ ai tân y gelynion
Acw'n difa'r fynachlog y sydd ?
Anfon, O Dduw, ddialwr dy weision
I ddifa'r estron ar glais y dydd ! ”

Tyrr y wawr yn oer ac yn araf,
 Lled ei gwawl dros yr eigion glas,
 A dengys gannoedd o'r llongau duon,
 A'r traeth yn frith gan y gelyn cas.

A chyfyd lluoedd y tywysogion
 I gyrchu'n cofn i faes y gad—
 Pa le yn awr y mae Maelgwn Gwynedd
 A'i lu, yn nydd cyfyngder ei wlad ?

Maelgwn, a wysiodd y tywysogion
 Oll i gyngor o'r gogledd a'r de,
 Ac eto heddiw yn wyneb y gelyn
 Nid oes bennaeth yn ôl ond efe !

Mae'r traeth yn ddu gan luoedd yr estron,
 A blaen eu byddin yn treiddio'n hy
 I mewn i'r wlad hyd gymoedd a nentydd,
 A thanau yn dangos llwybrau'r llu.

“Rhuthrwn i'w canol!” medd Cynan Powys,
 “Trenge pob un rhwng y dur a'r dŵr,
 A bydded mwyach yn wledig Cymru
 A fo yn y gad yn ehofna gŵr !”

Rhuthro ar hyn y mae'r tywysogion
 A dilyn pob un y mae ei lu,
 Megis llifogydd y gaea'n neidio
 Yn grych eu rhediad, yn groch eu rhu.

Rhuthrant i lawr y cymoedd a'r nentydd,
 A'r coed a'r creigiau'n ateb eu llef ;
 Hyrddiant y lladron yn ôl o'u blaenau
 Fel crinddail hydref rhag tymestl gref.

Ffoant, troant, arafant, safant,
 Yn dwr aneirif ar fin y don,
 Pob gŵr a'i gledd yn ei law yn barod,
 Pob un a'i darian o flaen ei fron.

A dacw fyddin y tywysogion
 Yn llifo ymlaen fel tonnau'r môr,
 A'r mynaich ar lethr y bryn cyfagos
 A'u gweddi yn daer am nawdd yr Iôr.

Cryn y ddaear gan hwrdd y byddinoedd,
 Aruthr y tery blaenrhes y ddwy,
 Fel y bydd tonnau deufor gyfarfod
 A thymestl gref yn eu corddi hwy.

Yno ni chlywir ond sŵn ergydio,
 Ennyd, ni chyfyd na gwaedd na chri ;
 Torrant, mae'r estron yn ffoi i'w longau
 A'i waed yn cochi ewyn y lli.

A'r llongau duon yn codi hwyliâu,
 I gau amdanynt daw llynges wen,
 Llynges brenin y gogledd ydyw,
 A Maelgwn ei hunan arni'n ben.

Ac ni ddihangodd o'r llongau duon
 Un i fynegi hanes y gad—
 Cadwodd Maelgwn yr oed a wnaethai
 Yntau a thywysogion y wlad.

“Myfi yw 'r Gwledig,” medd Cynan Powys,
 “Myfi oedd flaena'n yr ymgyrch hon ;”
 “A minnau,” atebai Maelgwn Gwynedd,
 “A'u rhoes yn isel o dan y don !”

Yna bu cyngor y tywysogion
 Ar faes y gad yn y fan a'r lle
 I geisio dewis y gŵr a fyddai
 Wledig Gymru yn ogledd a de.

A hir a fu'r drafod ac ofer hefyd
 Hyd oni lefarodd Maeldaf Hen—
 “A safo hwyaf rhag llanw yr eigion,
 Bydded wledig wrth arwydd ein Rhen.”

Pan oedd y tywysogion yn cysgu,
 A'u gwŷr o'u hamgylch oll ar y rhos,
 Gwneuthur cadair o edyn cwyledig
 A ddarfu Maeldaf yn oriau'r nos.

Cyrchu o'r tywysogion yn fore
 Drannoeth i lawr hyd y tywod mân,
 A Maeldaf Hen yn doddi cadeiriau
 Yno'n rhes, dair llath ar wahân.

MAELGWN GWYNEDD

Codi o'r llanw, codi yn araf,
A'r tonnau yn taflu'n uwch o hyd,
A'r tywysogion i gyd yn disgwyl
Dedryd y nef ar helynt y byd.

Dyfod o'r llanw gan daflu cadair
Tywysog ar ôl tywysog i lawr ;
Ond nofio o un ar frig y tonnau,
A Maelgwn yw Gwledig Cymru yn awr !

Coron Cadwallon.

I.

WEDI creulon a mynych ymladdau,
 Colli ac ennill ar faes y gwaed,
 Heddwch rhwng Cadfan frenin y Cymry
 Ag Aethelfrith frenin yr Eingl a wnaed.

Amod yr heddwch oedd rannu'r ynys
 A gado'i deyrnas yn rhydd i bob un,
 Namyn mai Cadfan frenin y Cymry
 Oedd mwy i wisgo'r goron ei hun.

Aethelfrith deyrn yr Eingl, ar hynny,
 Troi ei frenhines o'i lys a wnaeth,
 Hithau'n drist rhag ofn ei ddigofaint,
 Am nawdd at Gadfan i Gymru y daeth.

Trist ganddo yntau Gadfan fu weled
 Druaned ei golwg, ac ar ei wys,
 Daeth y frenhines ei hun i'w derbyn,
 A rhoddi iddi ryddid y llys.

Geni mab i'r frenhines alltud
 Yng ngwlad ac yn llys hen elyn ei dad,
 A'r noswaith honno y ganed hefyd
 Etifedd gorsedd a choron y wlad.

Magu'r ddau megis brodyr o'u mebyd,
Hoff gan y ddau fod ynghyd ym mhob man ;
Gwael gan Gadwallon fab Cadfan bopeth
Oni chai Edwin fab Aethelfrith ran.

Tyfu o'r ddau yn feibion heirddion,
Ac yna danfon y ddau ynghyd
At Selyf frenin Llydaw i dderbyn
Y ddysg a'r gamp oedd orau'n y byd.

Ac yno yn llys y brenin Selyf,
Mawr oedd eu clod am eu gwryd a'u rhin,
Nid oedd a'u trechai ar gampau heddwch,
Nid oedd eu dewrach pan fyddai drin.

Bu dristwch yn llys y brenin Selyf
Pan ydoedd y ddau yn gadael y wlad,
Llawer rhiain yn drom ei chalon
A llaith ei llygaid wrth wyllo'r bad.

Ond llawen fu Gadfan a'i frenhines
Pan ddaeth y llong a Chadwallon i dir,
Llawen fu hithau'r frenhines alltud
O weled ei mab wedi'r disgwyl hir.

Mawr fu'r wledd a roed i'w croesawu,
Yno daeth holl bendefigion y wlad,
A thrigodd Edwin yn llys y Cymry
Yn fawr ei barch ac uchel ei stad.

Megis pan oeddynt yn blant, a'u cariad
 Y naill at y llall yn ffyddlon a phur,
 Felly y carai y ddau ei gilydd
 A hwy wedi dyfod i oedran gwŷr.

Treiglo yn rhwydd o'r blynyddoedd heibio,
 Marw o Gadfan mewn henaint llwyd,
 A dyfod Cadwallon yn frenin y Cymry
 O enau Hafren hyd Ystrad Clwyd.

Yna daeth hanes i lys Cadwallon
 Nad byw ydoedd Aethelfrith yntau mwy,
 A bod yn nheyrnas yr Eingl ymrannu
 Am nad oedd bennaeth a'i air arnynt hwy.

“Dos,” medd Cadwallon, “i lys dy dadau,
 A gwysia yno benaethiaid y wlad,
 A byddaf innau yn gyfnerth iti
 Wrth raid, i ennill hen gyfoeth dy dad.

“A boed i'r heddwch fu rhwng ein tadau,
 Y ddau fu cyhyd yn elynion croes,
 Fyth yn heddwch barhau rhyngom ninnau,
 Y ddau fu gyfeillion ar hyd eu hoes.”

“Gyfaill fy nghalon,” medd Edwin yntau,
 “Af wrth dy gyngor a chyrchaf y wlad,
 Heriaf a threchaf fy holl elynion,
 A mynnaf ennill hen gyfoeth fy nhad.”

A chadw heddwch eu tadau a wnaethant,
A phobl y ddwywlad yn byw'n gytûn,
Yntau Gadwallon yn ôl yr amod
Yn gwisgo coron yr ynys ei hun.

II.

Pan oedd Cadwallon un dydd yn rhodio
Hyd fur ei lys ar derfynau'r wlad,
Gwelai hen filwr penwyn yn wylo—
Milwr a fu yn rhyfeloedd ei dad.

Trist gan y brenin oedd weled dagrau
Ar ruddiau gŵr a fu ddewr yn ei ddydd ;
“Diau,” medd ef, “mai mawr yw dy ofid,
Dywed pa achos i hwnnw y sydd.”

“Hen ydwyf i,” medd yntau yn araf,
“Cof gennyf i ryfeloedd dy dad ;
Gwych oedd y dydd pan ruthrem i ganlyn
Cadfan ein brenin i ganol y gad.

“Dychryn yr Eingl oedd Cadfan a'i luoedd,
Rhuthrem drwy Frynaich a Deifr ar ein hynt
Megis goddaith drwy eithin y gwanwyn,
A'r fflamau'n llamu o flaen y gwynt.

“Gŵr oedd Cadfan a'i air ar genhedloedd,
A choron yr ynys oedd ar ei ben ;
Heddiw, gwae ni, nid brenin y Cymry
Yw unig frenin yr ynys wen !”

“ Pwy a ddywed,” medd yntau Gadwallon,
 “ Nad unben yr ynys hon ydwyf i ? ”
 “ Y mae,” medd y milwr, “ goron arall,
 A phennaeth yr Eingl sy’n ei gwisgo hi ! ”

Hir yr edrychodd y ddau ar ei gilydd,
 A cherddodd y brenin ymaith yn fud ;
 “ Gwae yr Eingl ! ” medd y milwr dan wenu,
 “ Mae d’ysbryd di, Gadfan, yn fyw o hyd ! ”

III.

O fur y gogledd hyd enau Hafren,
 O fôr Iwerydd hyd gyrrau’r wlad,
 Galw o Gadwallon ei wŷr yn lluoedd
 I gadw neu golli hen goron ei dad.

Megis croeswyntoedd y gaea’n hyrddio
 Nes torchi gwanegau yr eigion blin,
 Rhuthro o luoedd Cadwallon ac Edwin
 I wyneb ei gilydd ar faes y drin.

A chwerw a chyndyn fu’r brwydro hwnnw,
 A hwythau’r brenhinoedd ym mlaen y gad,
 Wyneb yn wyneb megis gelynion—
 Dau a fu gynt yn gyfeillion mad.

“ Cu oeddit gennyf gynt,” medd Cadwallon,
 “ Cas gennyf eto a fyddai dy ladd ;
 Cofia gyfamod ein tadau heddiw,
 Gollwng dy goron a chadw at dy radd.”

“Cas fyddai gennyf fy lladd?” meddai Edwin,
“Cas gennyf innau fai rhoi iti glwy ;
Tithau a minnau, nid eiddom ein gweithred,
Bod fel y mynnem nid eiddom mwy !”

Ciliodd yr Eingl o faes y gyflafan
A’u teyrn ar y maes yn oer ac yn fud,
A daeth Cadwallon i lys y Cymry
Eto yn unben yr ynys i gyd.

Yno yng nghanol y wledd lawenydd,
Galw o’r brenin a’i wedd yn brudd—
“Caned y beirdd ei glod a’i orchestion,
Hoffed a dewred oedd ef yn ei ddydd !”

Cynfrig Hir a'r Brenin.

I.

A Huw Goch yn iarll Amwythig,
 A Huw Flaidd yn Arglwydd Caer,
 Dewr fab Cynan a'u hwynebai,
 Trechodd hwy mewn llawer aer.

Pan oedd Gruffudd fwya'i lwyddiant,
 A'i elynion dan ei draed,
 Medrodd brad yr hyn ni allai
 Grymus gyrch ar faes y gwaed.

Meirion Goch oedd enw'r bradwr
 A'i gwahoddes ef un dydd
 I gyfarfod dau bendefig
 Ar ei dir i hela'r hydd.

Mynd a wnaeth y brenin yntau
 Heb amddiffyn yn y byd
 Namyn rhai o wŷr ei osgordd—
 Nid amheus fydd mawr ei fryd.

Felly rhoed y gŵr a'u trechodd
 Gynt mewn llawer ymdrech daer
 Yng ngefynnau Iarll Amwythig
 Ac yng ngharchar Arglwydd Caer.

Hir y bu'n dihoeni yno
Yn ei gell, a'r estron iau
Ar ei ddeiliaid di-arweinydd
Byth a beunydd yn trymhau.

II.

Cynfrig Hir o dir Edeirnion,
Gŵr oedd ef o gawraidd hyd,
Gŵr a'i gryfdwr yn ddihareb,
Gŵr nid ofnai ddim o'r byd.

Gwyddai Cynfrig ddulliau'r estron,
Yn y dref fel yn y drin,
A di-lediaith hefyd ydoedd
Iaith y gelyn ar ei fin.

Yno wedi llawer blwyddyn
O ddiodef gormes ddu,
Cyngor gan y pendefigion
Yn Edeirnion dir a fu.

Meddai bardd, a'i lais yn crynu—
“Coder byddin, na hwyrhaer,
Llosger tai ac eiddo'r gelyn,
A diffeithier dinas Gaer!”

“Gwych a fyddai wneuthur hynny,”
Medd un arall llym ei wedd ;
“Gwych!” medd eraill gan gyfodi
Bawb a'i law ar garn ei gledd.

“Diau, gwych fai wneuthur hynny,”

Meddai yntau Gynfrig Hir,

“Ond fe laddant hwy y brenin

Tra diffeithiom ninnau'r tir.

“Af fy hun a mynnaf wybod

A yw'r brenin eto'n fyw,

Yna rhuthrwn a diffeithiwn

Dref yr estron, onid yw !”

Doeth ym marn y pendefigion

Ydoedd cyngor Cynfrig Hir ;

Cyrchodd yntau dref y gelyn

A pheryglon estron dir.

III.

Gan Huw Flaidd a'i wyllt gymdeithion,

Goreu peth oedd drin y cledd,

Gweled creulon chwaryddiaethau,

Yna yfed gwin a medd.

“Blinais ar ddiogi heddwch,

Heddiw, mynnwn wledd,” medd Huw,

“Dygwch allan mewn gefynnau

Frenin Cymru, od yw fyw.”

Dygwyd Gruffudd mewn gefynnau,

Llusgwyd ef drwy faes y dref,

A'i elynion yn ei wawdio

Ac yn gweiddi “croger ef !”

CYNFRIG HIR A'R BRENIN

“Na,” medd Huw â gwên casineb
A chreulondeb ar ei wedd,
“Cadwer ef yn fyw a dyger
I'n difyrru wedi'r wledd.”

Yna aeth y gwŷr i wledda
Gyda'r Iarll yn fawr eu blys ;
Angof ganddynt Ruffudd yntau
Ar y lawnt o flaen y llys.

IV.

Safai yno ddau i'w wyllo
Nes bod terfyn ar y wledd ;
Pwysai'r naill ar fôn ei bicell,
Pwysai'r llall ar garn ei gledd.

Darfod 'r oedd y dydd yn araf,
Gwyll y nos oedd yn trymhau ;
Cerddodd gŵr cyhyrog, cadarn,
Heibio'r lle y safai'r ddau.

Nid oedd lediaith ar ei dafod,
Ar ei ôl y cerddai'r ddau,
Cymwys iddo ef orchymyn,
Eiddynt hwythau ufuddhau.

Darfod 'r oedd y dydd yn gyflym,
Gwyll y nos oedd yn dyfnhau,
Dacw'r gŵr cyhyrog, cadarn,
Yn dychwelyd, heb y ddau.

Heb lefaru gair o'i enau,
Cyfyd Ruffudd ar ei fraich,
Yna'n ebrwydd, llithro ymaith
Megis un heb ofn na baich.

Hir fu'r daith drwy gors a gwerni
Oni lasodd gwawr y dydd,
Yna, gan benlinio, meddai,
“ Arglwydd, wele di yn rhydd ! ”

“ Bendith nefoedd,” medd y brenin,
“ Arnad am dy gariad gwir ! ”
“ Dwyn fy mrenin o gaethiwed,
Digon im ! ” medd Cynfrig Hir.

Owain a Nest.

I.

YNG nghastell Rhys ap Tewdwr
Yr oedd llawenydd mawr,
Am ddarfod unwaith eto ddwyn
Bwriadau trais i lawr.

Daeth mil o bendefigion
O lawer lle i'r llys,
A mil o feirdd i ganu clod
A mawl y Brenin Rhys.

A pheri a wnaeth y Brenin
Fod yno dwrneimaint,
Ymryson trin y gwayw a'r cledd
Rhwing gwŷr o uchel fraint.

Ar wastad lawnt y castell
Cyfodwyd adail wiw,
A'i gwisgo â theisbanau gwych
A llenni o lawer lliw.

I'r adail eang honno
Yn ôl eu gradd a'u braint,
Y daeth yr arglwyddesau oll
I wyllo'r twrneimaint.

CERDDI DOE

Mewn gynau pali cannaid
Gosgeiddig rodiai'r rhain,
A mentyll hir o sindal gwyrdd
Neu sidan gwineu cain.

Am wên y fun ifengaf
A glanaf yn y llys,
Ymdrechai y marchogion oll,
A hi oedd Nest ferch Rhys.

A'i gwallt fel blodau'r eithin,
A'i grudd fel gwrid y rhos,
A'i llygaid megis fflamau tân—
Gwae hi ei bod mor dlos!

A daeth i gae'r ymryson
Wŷr cedyrn llawer cad,
I brofi pwy o'u plith a geid
Yn ben cleddyfwr gwlad.

Daeth meibion ieuainc hefyd
I drin yr arfau dur,
A chaled fu'r ymryson rhwng
Yr hen a'r ieuainc wŷr.

I ganol y marchogion
Ar ganwelw farch y daeth
Rhyw farchog lluniaidd, ieuanc iawn,
A'i wayw a'i gledd a'i saeth.

OWAIN A NEST

Gloyw arian oedd y tidau
A'r byclau ar ei seirch,
A gwyh a digyffelyb oedd
Ei farch ymysg y meirch.

Gwastraffwyd aur yn addurn
Ar hyd ei darian gref,
A llawer o gywreinwaith aur
Oedd ar ei ddurwisg ef.

Yng ngolau'r haul disgleiriai
Yr helm oedd am ei ben,
A'r ddraig oedd ar ei chopa hi
Yn dwyn tair pluen wen.

A'i baladr hir yn barod
Y dôi yn falch ei ffriw,
A meini gwyrth yng ngharn ei gledd
O lawer llun a lliw.

I'r gamp yr âi'r marchogion
Bob un â llawen floedd,
Ond gorau gŵr â'r paladr hir,
Y marchog ieuanc oedd.

Ar drin y cledd a'r bwa
Ymryson hir a fu,
Ond nid oedd ail i'r marchog gwyn
I'w gael ymhlith y llu.

CERDDI DOE

Edrychai'r pendefigion
A syndod ar eu gwedd,
Wrth weld y marchog ieuanc hwn
Yn trechu gwŷr y cledd.

A hwythau y marchogion
Syn ganddynt oedd, a chas
Eu trechu yno gan y sawl
Nid oedd ond ieuanc was.

A dewis a fynasant
Y blaenaf yn eu plith
I herio'r estron eto 'mlaen
A throi ei chwarae'n chwith.

Daeth hwnnw i'w gyfarfod
A'i baladr uwch ei ben,
A hawlio gwybod enw a gradd
Y gwas a'r bluen wen.

“Bid hysbys iti farchog,”
Ebr yntau'n oer ei wên,
“Mai Owain ap Cadwgan wyf,
O deulu Powys hen.”

“Mae braint i mi dy herio,”
Ebr hwnnw, “am y bri” ;
“A pharod dderbyn,” ebr y llall,
“Dy her yr ydwyf i.”

OWAIN A NEST

A throi o'r ddau yn ebrwydd
Bob un i ben ei faes ;
A phawb a'i lygaid ar y fan,
Fe glywid oergri laes.

Carlamodd meirch y ddeuwr,
A sŵn eu rhuthr yn fawr ;
A syrthio a wnaeth yr heriwr dros
Bedrain ei farch i lawr.

O'r adail lle'r eisteddai
Holl arglwyddesau'r llys,
Derbyniodd Owain faneg wen
O ddwylo Nest ferch Rhys.

A gwelodd Nest yn cynnau
Yn llygaid Owain serch,
Ac yntau yn ei llygaid hi
Ofnadwy gariad merch.

II.

“ Ha ! Owain ap Cadwgan,
Pa beth a weli di ? ”

“ Dros donnau môr Iwerydd draw,
Fy ngwlad a welaf i.”

“ Ai yn y wlad a weli
Mae'r ferch a geri di ? ”

“ Cawn galon llawer rhiain dlos,
Ond gwell ei haros hi.”

CERDDI DOE

“ Oferedd a fai aros,
Ni weli moni mwy ! ”
“ Afati, ni ddeil dwfr na thân
Ni ar wahân yn hwy ! ”

A'i long o dir Iwerddon
A ffoes o flaen y gwynt,
Ond mynnai cariad ben y daith
Yn llawer canwaith cynt.

Yn Aberdyfi tiriodd
Y llong yng ngwyll y nos,
A gyrrodd Owain ar ei farch
Dros lawer anial ros.

A gwawr y bore'n torri,
Fe ddaeth i gyrrau'r tir
A lywiodd meibion Bleddyn gynt
Drwy lawer helynt hir.

Lle bu digonedd unwaith
Nid oedd ond anrhaith du,
A gwŷr y goror wedi ffoi
Rhag creulon estron lu.

Daeth dewin i'w gyfarfod
Ar odre coediog allt,
Yn grwm ei gefn a byr ei gam,
A hir ei farf a'i wallt.

OWAIN A NEST

- “ Ha ! Owain ap Cadwgan,
Pa beth a fynni di ? ”
- “ O ddewin hysbys, ceisio'r ferch
A gerais yr wyf i.”
- “ Och ! Owain ap Cadwgan,
Mynega im pa le
Yr oeddyt pan fu gwympto Rhys
A llogi llys y De ? ”
- “ Ni chwmpodd llew Deheubarth,
Nid oedd a drechai Rhys ! ”
- “ Mae castell estron ar y fan
Lle'r oedd ei lydan lys ! ”
- “ O Dduw ! a laddwyd hithau,
Y ferch a gerais gynt ? ”
- “ Y gelyn traws a'i dug, a thi
Ar lawer ofer hynt ! ”

III.

Gwanychodd braich Cadwgan,
A phylodd min ei gledd,
A daeth y gŵr a garai'r gad
Yn ŵr a geisiai hedd.

I feithrin mwyn dangnefedd
A rhinwedd o bob rhyw,
Gwnaeth wledd Nadolig yn ei lys
Er anrhydeddu Duw.

CERDDI DOE

Gwahoddes bendefigion
Y wlad at fwrdd y wledd,
A gwelwyd Owain yn eu plith
A'i drem mor llym â'i gledd.

Bu lawen y gymdeithas,
Nid oedd ond dau yn drist,
Sef Owain oedd yn cofio Nest,
A Brawd a gofiai Grist.

Och ! Owain, pwy sibrydodd
Y geiriau wrthyt ti ?—
“ Mae Nest yng nghastell Cenarth fry
A Gerallt gyda hi ! ”

Mor bêr oedd sain y delyn,
Mor fwyn oedd cân y bardd
Am hanes llawer marchog dewr
A llawer rhaiin hardd.

Ond trist a mud oedd Owain,
Er yfed gwin a medd,
A chas a chariad bob yn ail
Yn tanio'i waed a'i wedd.

Distewi'r oedd y lleisiau
I gyd o un i un,
A llaw'r telynor ar y tant
Yn crwydro drwy ei hun.

OWAIN A NEST

Cyfododd yntau Owain,
A'r tân yn llosgi'n goch,
A'r tannau'n seinio'n is ac is,
A'r gwynt yn rhuo'n groch.

Och ! Owain ap Cadwgan,
Pa le y cyrchi di ?—
Mae bywyd a marwolaeth rhwng
Dy gariad a thydi !

IV.

Mae gwaedd yng nghastell Cenarth
(O Dduw ! mor ddu yw'r nos !)
A'r gwylwyr oddi ar y mur
Yn cwympto'n feirw i'r ffos.

Mae braw yng nghastell Cenarth,
(O Dduw ! mor ddu yw'r nos !)
Mae wyneb Gerallt fel yr ia
Ac wyneb Nest fel rhos.

Mae ofn yng nghastell Cenarth
(O Dduw ! mor ddu yw'r nos !)
Mae Gerallt wedi ffoi, a'i wŷr
Yn dianc hyd y rhos.

Mae serch yng nghastell Cenarth
(O Dduw ! mae'r nos yn ddydd),
Ar fynwes Owain wyla Nest
O rwymau trais yn rhydd.

CERDDI DOE

Mae nef yng nghastell Cenarth
(O Dduw, mor bêr yw serch !)
Angerddol ydyw cariad mab,
Ond mwy yw cariad merch.

Mae tân yng nghastell Cenarth,
A'i fflamau'n bwyta'r nos,
A dau yn eithaf gwynfyd serch
Yn rhodio ar hyd y rhos.

Ni chlywant sŵn y gwyntoedd,
Ni theimlant oerni'r nos,
Mae Owain fel y storm, a Nest
Yn annaearyl dlos !

V.

Yng nghoedydd Ystrad Tywi,
Ar nos ddrycinog ddu,
Ymguddio rhag y gelyn cas
Mae ffoedigion lu.

Och ! Owain ap Cadwgan,
Ai ti yn frwnt dy frad,
Y sydd er mwyn dy elyn gynt
Yn hela gwŷr dy wlad ?

Ai angof gennyt heno
Dy hen wladgarwch gynt,
Pan daniai Cymru wrth dy air
Fel goddaith yn y gwynt ?

OWAIN A NEST

Ai dibris gennyt dylwyth
Y ferch a'th garodd di
Nes rhoddi popeth er dy fwyn
Y nos y dygaist hi ?

Och ! Owain ap Cadwgan,
Pa beth a glywi di ?
“ Mae llu yn dyfod yn y gwyll
Ac ar ein gwarthaf ni ! ”

Y gwŷr a'th garodd unwaith,
Dy ladd a geisiant mwy ;
“ Na, llu y Fflandrwys diog yw,
Ni syflaf rhagddynt hwy. ”

A safodd mab Cadwgan
A'i filwyr ar y rhos,
Ac yno ber a chwern a fu
Y frwydr yng ngwyll y nos.

Daeth saeth, a chwypodd Owain
I lawr yn flin ei floedd,
A saeth dialedd chwerw a chas
O fwa Gerallt oedd.

Gwenllian.

I.

“ O, WENLLIAN, tawel ydwyf,
Nid oes arnat fraw na brys,
Onid wyt yn ofni ? ” meddai
Un o arglwyddesau'r llys ;
“ Clyw, mae rhywun heno'n curo,
Curo, curo ar borth y llys.”

“ Nid oes oddi allan heno
Namyn sŵn y gwynt a'r glaw,”
Medd Gwenllian, y frenhines,
“ Ac nid adwaen innau fraw ;
Gwrando ar y gwynt yn rhuo,
Rhuo dros y tyrau draw ! ”

“ O, Wenllian, clywaf leisiau,
Lleisiau gwŷr ym mhorth y gaer ;
Gwrando ! oni chlywi dithau
Guro tost a gweiddi taer ? ”

“ Clywaf sŵn y gwynt yn rhuo,
Rhuo dros y tyrau draw,
Yna'n chwerthin ac yn gweiddi
Yn ei ruthr ar ôl y glaw.”

- “ O na ddôï y brenin yma
Eto i'th amddiffyn di ;
Ond os trechir yntau hefyd .
Gan y Norman, gwae nynt ! ”
- “ Trechu Gruffudd, anodd fyddai,
Rhoddwyd iddo nawdd y nef,
Canodd adar Llyn Syfaddon
Iddo pan goronwyd ef.
- “ A byddinoedd yn ei ganlyn,
Daw yn ôl o lys fy nhad,
Yna rhag ei fâr, bydd diwedd
Ar yr estron yn ein gwlad.”
- “ Clyw ! mae rhedeg yn y cyntedd,
O, Wenllian, ffown yn awr ! ”
Yna syrthiodd yr arglwyddes
Ar ei gliniau ar y llawr.
- “ Cyfod ! ” meddai y frenhines,
“ Estyn imi'r cleddyf draw ; ”
Yna i agor dôr neuadd
Aeth a'r cleddyf yn ei llaw.
- Syrthiodd un o wŷr y brenin
Ar ei liniau wrth ei thraed,
Cymysg ar ei wyneb ydoedd
Glaw a llaid a chwys a gwaed.

- Yn ei fraw ni allai yngan
 Gair o'i enau wrthi hi,
 "Dywed imi," medd Gwenllian,
 "Pa beth yw dy neges di."
- "O f' arglwyddes," meddai yntau,
 "Dyfod y mae byddin fawr,
 A Maurice de Londres yn arwain—
 Byddant yma cyn y wawr!"
- "Galw ynghyd holl wŷr y Castell
 Allan i'w wynebu hwy;
 Pwy o wŷr y llys a'u harwain?"
 Medd y gennad yntau, "Pwy?"
- "Galw holl wŷr y Castell allan
 Dan eu harfau llawn bob un,"
 Medd Gwenllian, y frenhines,
 "Ac arweiniaf hwy fy hun."
- "O, Wenllian, gwranddo!" meddai
 Yr arglwyddes welw ei gwedd,
 "Ffo ar unwaith rhag yr estron,
 Gorchwyl gwŷr yw trin y cledd."
- "Gwelais ruthrau lluoedd Gwynedd,
 Bŷm yn gwranddo'u criau croch,
 Wedi llawer buddugoliaeth
 Gwelais gledd fy nhad yn goch.

“ Huno'n dawel mae fy meibion,
 Pell oddi wrthynt yw eu tad ;
 Gorchwyl gwraig yw tynnu cleddyf
 Dros ei gŵr a'i phlant a'i gwlad.”

II.

Cyn bod gwawr yn cleisio'r dwyrain,
 Pan oedd gyfliw gŵr a llwyn,
 Clywid twrf ym mhorth y Castell, .
 Llawer cri a llawer cwyn.

Dros y rhagfur daeth y gelyn,
 Gan ddylifo'n chwyrn i lawr,
 Ond 'roedd byddin y frenhines
 Rhyngddynt fyth a'r castell mawr.

Hir a chwerw a fu yr ymladd,
 Ond bu raid i'r fantol droi,
 Nes bod byddin fach Gwenllian
 Yn encilio, yna'n ffoi.

Rhuthro'n wyllt yr oedd yr estron,
 Awchus oedd ei gleddyf erch,
 Cledd bradwrus nid arbedai
 Fawr na bychan, mab na merch.

Hunai deufab y frenhines
 Yn eu diniweidrwydd pur,
 Ond deffrowyd hwythau'n ebrwydd
 Gan dinciadau arfau dur.

CERDDI DOE

Duw a wŷyr pa beth fu yno,
Ac efô a farno'r cam,—
Dygwyd Maelgwn, ond gadawyd
Morgan yno gyda'i fam.

Yno'r oedd y ddau yn oerion
Pan dywynnodd bore wawr,
A'r ddwy ffrwd o waed oedd wedi
Ymgymysgu ar y llawr.

Ednyfed Fychan.

I.

RHUA storm ym mrig Eryri,
Rhua'n hir a dofn ei thôn,
A chynhyrfus ydyw'r tonnau
Ar dueddau Ynys Fôn.

Disgyn gwyll y nos yn araf
Ar y mynydd, ar y môr ;
Da fydd gaffael cysgod heno
Pan agoro'r gwynt ei ddôr.

Tua phlas Tre Garnedd heno
Llawer un yn cyrchu sydd,
At briodas yr arglwyddes
Yn yr eglwys fory a fydd.

Gwŷr o fonedd ac anrhydedd
Sydd yn dyfod fwy na mwy,
A rhianedd penna'r ynys
Yn eu harddwch gyda hwy.

Yn y neuadd fawr eisteddant
Bob yn ail o gylch y bwrdd ;
Melys yw y medd a'r gwinoedd,
Ysgafn yw eu llawen dwrdd.

CERDDI DOE

Wele res o delynorion
Ac o feirddion ar y fainc,
Gwŷr yn medru gweu a chanu
Hwylus gerdd a melys gainc.

Tyner ydyw sain y tannau,
Sŵn y lleisiau sy yn llon,
Fel yr awel yn y llwyni,
Megis chwerthin araf don.

Cân y bardd am gariad dirfawr
Garwy Hir a Chreirwy dlos,
Cariad Trystan gynt ac Eryllt
Ar y môr yn nyfnder nos.

Gloywa llygad llawer marchog,
Cura calon llawer merch,—
Melys ydyw aros cariad,
Peraidd ydyw cofio serch.

Yno mae Gwenllian hithau,
Yn ei llen o sindal drud ;
Er nad ieuanc moni mwyach,
Hardd ei chorff a glân ei phryd.

Gwrendy ar y beirdd yn canu
Hanes calon mab a merch,—
Eiddi heno aros cariad,
Eiddi heno atgof serch.

Cof yw ganddi serch Ednyfed
 (Och nad byw Ednyfed mwy !)
 Cofio heno yn ei chalon
 Am y dydd y rhwymwyd hwy.

Gwrendy ar chwerthin y rhianedd,
 Eto gwelw a thrist ei gwedd ;
 Gwêl y gad yng ngwlad yr estron
 A'r rhyfelwr yn ei fedd.

Nid oes neb a wêl ei gofid,
 Nid oes neb a wŷr ei loes,
 Mae a'i gwelsai ac a'i gwypai
 Yn y gweryd dan ei groes.

Oddi mewn mae cân a chwerthin,
 Gwin a medd a gwenau mwyn ;
 Oddi allan mae y gwyntoedd
 Heno'n wylo'n drist eu cwyn.

Trwm i galon friw Gwenllian
 Yw y gân a'r chwerthin llon,
 Gwell fai sŵn y gwynt galarus
 Gan yr hiraeth yn ei bron.

Cyfyd yn ei gofid distaw,
 Gwên yn welw ac yna chwardd,
 Fel a chwarddo'n oer rhag wylo,—
 Yna cerdda i grwydro'r ardd.

Cerdda'n araf hyd y llwybrau,—
 Yn ei gwallt mae gwynt y nos ;
 Dagrau'r nos sydd ar ei gruddiau,
 Lle'r oedd unwaith wrid y rhos.

Nid oes arni ofn nac arswyd,
 Un yw hi â'r noswaith hon,
 Ac ni thry a ffoi pan genfydd
 Wr yn sefyll ger ei bron.

“ Rhynged bodd i ti, arglwyddes,
 Roddi imi borth a nawdd,”
 Medd y gŵr, a'i lais yn crynu,
 “ Teithio heno nid yw hawdd.”

“ Gwir yw hynny,” medd Gwenllian,
 “ Rhoddaf iti borth a bwyd ;
 Dyred gyda mi i'r gegin,—
 Wrth dy olwg, estron wyd ?”

“ Estron wyf,” medd yntau, “ bellach
 Yn fy hen gynefin dir,
 Crwydro bûm hyd wledydd daear
 Lawer lawer blwyddyn hir.”

“ Dyred,” medd Gwenllian hithau,
 “ Di gei roesaw ar dy hynt
 Am mai'n estron crwydr y collais
 Un a gerais innau gynt.”

EDNYFED FYCHAN

“ Pwy oedd hwnnw, fwyn arglwyddes ? ”

Medd y gŵr a'r wyneb llwyd,

“ Gwael oedd iddo fynd a'th ado,
Tithau eto'i gofio'r wyd.”

“ Gelwid ef Ednyfed Fychan,

Gŵr oedd ef a garai Dduw,

Cymerth ef y groes a hwylio

Dros y môr, a mwy nid yw.”

“ Pwy a etyb, fwyn arglwyddes,

Na ddaw eto ar ei hynt,

Y mae gobaith gŵr o ryfel,

Medd hen air a glywais gynt.”

“ Ni ddaw eto,” medd Gwenllian,—

Gwelw ac athrist oedd ei gwedd,—

“ Oes, mae gobaith gŵr o ryfel,

Nid oes obaith neb o'r bedd ! ”

“ Na fydd drist, arglwyddes dirion,”

Medd yr estron, “ dichon Duw

Gadw y sawl a ddygo arfau

Drosto ef o hyd yn fyw.”

“ Ond nid byw Ednyfed Fychan,

Huno y mae,” medd hi, “ mewn hedd,

Adwaen yma ŵr a'i gwelodd

Ef yn farw o fewn ei fedd.”

Mynd y mae Gwenllian ymaith,
 Heb lefaru dim ond hyn,
 Saif y crwydryn yntau'n edrych
 Ar ei hôl yn hir a syn.

II.

Daeth y bore a'r briodas,
 Wele bawb wrth fwrdd y wledd,
 A Gwenllian gyda'i phriod
 Yno'n oer a gwelw ei gwedd.

Wrth y drws fe saif y crwydryn
 Yn ei garpiâu'n llwm a llwyd,
 Ac edrycha'r arglwydd arno
 Yno'n awr yn flin ei nwyd.

“Grwydryn, pwy wyt ti, atolwg?
 Beth a fynnit?” medd efe;

“Pwy i'r neuadd a'th wahoddes?
 Gwêl nad yma y mae dy le.”

“Pe cawn delyn,” medd y crwydryn,—
 “Hen delynor ydwyf i,—
 Canwn foliant i'r arglwyddes
 Am y nawdd a roddes hi.”

“Os mai hen delynor ydwyf,”
 Medd yr arglwydd, “cân i ni;
 Wele delyn wrth y ffenestr,
 Hen yw honno, cymer hi.”

EDNYFED FYCHAN

Yna gwrida yr arglwyddes,
Yna troi yn welw ei gwedd,—
Mae a ganai'r delyn honno
Heddiw'n huno yn ei fedd.

Ond mae dwylo y cardotyn
Bellach ar y tannau mân,
Nes bod pawb yn troi a gwranddo
Ar y ryfedd gainc a gân.

Yna codi o Wenllian,
A sibrydai'n wan ei llef,—
“O Ednyfed, O Ednyfed!”
Yna syrth i'w freichiau ef.

Cerddi Heddiw.

Yr Hen Ffermwr.

DAETH Dafydd Owen Gruffydd
I fyw i Dyn y Coed,
Lawer blwyddyn faith yn ôl
Yn bump ar hugain oed.

Yr oedd yn ŵr gosgeiddig,
Llawn dwylath oedd o hyd;
Cyhyrog oedd, ac ar ei gefn,
'Doedd unrhyw bwys ddim byd.

Yr oedd ei wallt yn loywddu
A llawn modrwyau mân,
A gwritgoch oedd ei ddwyrudd ef
A'i lygaid fel y tân.

Er nad oedd ganddo arian,
Er na roed iddo ddysg,
'Doedd gwmni na buasai ef
Yn frenin yn eu mysg.

Os celyd oedd ei ddwylo,
Os truan oedd ei ffawd,
'Roedd gwaed uchelwyr Cymru gynt
Yng ngwythi'r ffermwr tlawd.

Ni byddai neb a dynnai
Ar faes unionach cwys,
Nac yn y fedel undyn byw
Nas trechai wrth ei bwys.

Fe wyddai draddodiadau
A chwedlau fwy na mwy,
A llawer cerdd a chywydd pêr
Nad oes a'u hadfer hwy.

Gan hardded oedd ei olwg,
Fe swynodd lawer merch,
Ac ar y deca'i gwedd i gyd
Rhoes yntau'i fryd a'i serch.

Ni bu lawenach diwrnod
Ar ddeuddyn hoff erioed
Na'r dydd y dygwyd hi o'r Graig
Yn wraig i Dyn y Coed.

A gwelwyd tri o feibion
A thair o ferched glân
Cyn hir yn troi y lle yn llon
A'u mwynion gampau mân.

A chaled fu y llafur
I fagu'r teulu bach,
A'r byd yn ddu pan fyddent glaf
A gwyn pan fyddent iach.

CERDDI HEDDIW

Ar noswaith erwin iasoer
Yn nhrymder gaeaf du,
Daeth angau heibio'r teulu llon
A chreulon iawn a fu.

Fe wlychodd ei grafangau
Yng nghochwaed calon serch,
Gan adael yno ofid taer
Am annwyl chwaer a merch.

Ym mynwent fach ddiaddurn
Y capel llwm gerllaw,
Dan gysgod ywen werdd y mae
Y "bedd y gwlych y glaw."

A gwelwyd wedi hynny
Ddifwyno gwedd y fam,
A britho gwallt y tad cyn hir,
A throi ei warr yn gam.

Yn nhreigliad y blynyddoedd
Bu llawer tro ar fyd,
A diffyg aur a phrinder bwyd
A gobaith lawer pryd.

Er garwed llawer tymor,
Ni phallwyd dwyn y rhent
Yn llawn i'r conach unoes oedd
Yn honni hen ystent.

YR HEN FFERMWR

Pan fyddai eisiau torri
Y ddadl erwina 'rioed,
Yr oedd uniondeb, pwyll a barn
I'w cael yn Nhyn y Coed.

Pan fyddai angen cyngor
Ar rai o bob rhyw oed,
Nid sicrach cyngor undyn byw
Na chyngor Tyn y Coed.

Nid ydoedd ef nac ynad
Na barnwr mawr ei glod,
Ac eto ni bu ynad gwell
Na barnwr mwy yn bod.

Ni feddai ef awdurdod
Un gyfraith dros ei farn,
Ond grym cydwybod onest glir
Gŵr cywir hyd y carn.

Yn wyneb profedigaeth,
Er gwaedu o'i galon ef,
Nid ildiai mwy na'r dderwen dan
Guriadau'r dymestl gref.

Yn wyneb angau'i hunan,
Er maint ei ddistaw loes,
Fyth nid anghofiai ddyled dyn
I'r byw, dan bob rhyw groes.

CERDDI HEDDIW

Fe welodd lawer lawer
O drocon chwerwon chwith,
Ond hwy na'r fellten lem a'r llif
Y cofia'r glaw a'r gw lith.

Dywedwch wrtho heddiw
Mai drwg sy'n llenwi'r byd,
A dyfyd yntau, ac fe'i gŵyr,
Nad ydyw ddrwg i gyd.

Pa le mac'r teulu dedwydd
Fu'n Nhyn y Coed cyhyd?
Mae dau yn fud yng ngwaelod bedd,
A'r lleill ar led y byd.

Mor llawen oedd y dyddiau
Pan oedd y plant yn fân,
Yn chwarae hyd y meysydd draw
Neu'n eistedd wrth y tân!

Mor hyfryd fyddai ganddo
I'w ganlyn ef eu dwyn,
A dwedyd enwau blodau gwyllt
A llysiâu coed a llwyn.

A dedwydd fyddai eistedd
Ar hirnos wrth y tân,
Gan adrodd chwedlau iddynt hwy
Neu ynteu ganu cân.

Ond buan darfu'r adeg,
Ac aeth y plant i gyd
Ar led y byd i lawer lle
Ymhell o'r cartre clyd.

A bellach yn y fynwent
Mae'r fam a'r ferch ynghyd,
A'r tad ei hun yn Nhyn y Coed
Yn hen yn dwyn ei fyd.

Ni wŷr y byd ei hanes,
Nid aeth ei glod ymhell,
Ond gŵyr a'i hedwyn ef na bu
I'w wlad erioed ei well.

Mae gwlad ein tadau'n newid
Yn llwyrach nag erioed,
Ond ni ddaw neb a fydd yn ail
I'r gŵr o Dyn y Coed.

Yr Hen Lafurwr.

SIÔN DAFYDD gynt o Ben yr Allt,
Yr oedd ei wallt yn ddu,
A'i gorff yn ystwyth ac yn iach,
Ei burach ef ni bu.

O ddeg o blant mewn bwthyn llwm
Ef oedd yr hynaf un,
A'r tad yn ennill cyflog bach,
Er na bu dygnach dyn.

Ni chafodd gychwyn yn y byd,
Na chwarae teg erioed,
Ond gorfod troi i wneud rhyw swydd
Yn blentyn seithmlwydd oed.

Un tipyn ni chynhilodd o .
Er iddo geisio'n daer,
Ond mynd a'i gyflog bychan tlawd
I fagu brawd a chwaer.

Fe gerddai 'mhell i'r ysgol Sul
Yn flin o gam i gam,
A dysgodd lawer pennod faith,
A darllen iaith ei fam.

Yn llofft y stabl, a hithau'n oer,
Heb neb i chwilio'i gŵyn,
Darllenai bob rhyw lyfr a gâi
Wrth olau kannwyll frwyn.

Ac felly dysgodd lawer iawn
Oddi wrth ei lyfrau i gyd,
A llawer mwy heb unrhyw lyfr
Nag athro yn y byd.

Adwaenai ddail a llysiâu lu,
A gwyddai am eu rhin
I leddfu poen a gwella cur,
A llawer dolur blin.

Fe wyddai enwau'r adar mân,
Adwaenai gân pob un,
A gwyddai hanes hwn a'r llall,
A'u lle a'u lliw a'u llun.

Pan ddeuai dywydd hirddydd haf,
Fe'i gwelid gyda'r nos
Yn gwylio bywyd mynydd maith
A throeon hirfaith ros.

A phan fai gaeaf du ac oer
A'i rew yn llwydo'r llwyn,
Yn llofft y stabl y byddai ef
A'i lyfr a'i gannwyll frwyn.

CERDDI HEDDIW

Os mawr a chaled oedd ei law,
Ag ef yn ddeunaw oed,
Ni bu yn unman gryfach dyn
Na harddach un erioed.

Fe wybu yntau brofi serch,
A charodd ferch yn fawr,
A chestyll gwych a gododd ef
Yn llon rhwng nef a llawr.

A'r ddau ryw hwyr o wanwyn teg
Ar wib hyd grib y graig,
Dywedodd Catrin wrtho fo
Y byddai iddo'n wraig.

Cymerodd yntau'n gartre glân
Ryw fwthyn bychan tlws,
A dygodd lu o flodau hardd
I'r ardd o flaen y drws.

Fe'i gwelid ef a'i ddarpar gwraig
Yn croesi'r graig fin nos,
Hyhi yn mynd i daclu'r tŷ
Ac yntau i blannu rhos.

Yr oedd y byd yn hardd a gwyn
I'r ddeuddyn, ond fe ddaeth
Rhyw blaned chwith a'i droi cyn hir
Yn ddu yn wir a wnaeth.

Un noswaith deg yn nechrau haf,
A Mai yn hulio'r wlad,
Daeth angau heibio Pen yr Allt,
A chollodd Siôn ei dad.

'Roedd yno fam a phlantos mân
Yn druan ac yn dlawd ;
Aberthodd Siôn ei serch er mwyn
Dyletswydd mab a brawd.

Daeth deuddyn arall wedi hyn
I'r bwthyn gwyn i fyw ;
Rhoes Siôn yr ardd, dan flodau'n frith,
I'r ddau, a bendith Dduw.

Daeth gaeaf du ar ôl yr haf,
A haf drachefn ar hynt,
Ond nid oedd Siôn a Chatrin Rhys
Yn caru megis cynt.

Pan daenai Mai ei flodau gwiw
Hyd lawr, bob lliw a llun,
Fe welodd Siôn roi Catrin Rhys
Yn wraig ffodusach dyn.

Ac yntau'n cario calon friw,
Er bod ei liw yn iach,
Gan ddwyn ei geiniog brin yn bur
I'w fam a'i frodyr bach.

CERDDI HEDDIW

Fe welodd dyfu'r brodyr bach
Yn llanciau iach a llon ;
Agorodd eu priodi hwy
Hen glwy o dan ei fron.

Bu cwypm yn Chwarel Pen y Lôn,
A cholodd Siôn ei frawd,
A magodd yntau'r teulu bach
Ar bwys ei geiniog dlawd.

Am lawer blwyddyn dug ei bwn
Gan helpu hwn a'r llall,
A rhannu pres o'i brin ystôr,
A llawer cyngor call.

Ond aeth yn hen, a daeth y nos
Yn agos ato'n wir,
A'i gefn yn grwm a'i gam yn fyr
Ar ôl ei lafur hir.

Siôn Dafydd gynt o Ben yr Allt,
Y mae ei wallt yn wyn,
Fe'i gwelais wrth y Tloty ddoe,
A'i wedd yn hurt a syn.

Gweinidog Llan y Mynydd.

GWEINIDOG Llan y Mynydd,
Ei fywyd, llonydd fu,
Ond gwelodd ambell ddiwrnod teg
A llawer cwmwl du.

Bu ugain mlynedd wrthi
Yn torri'r gloyn du,
A gwelid ôl ei galed waith
Mewn llawer craith tra fu.

Ni ddysgodd Roeg na Lladin,
Ni wybu'r hen Hebraeg,
Ac ni cheid llun ar frawddeg gron
Ymron, yn ei Gymraeg.

Ni wyddai ond ychydig
O bethau yn y byd,
Ac ni fynasai gredu mwy—
Ond credodd hwy i gyd.

Ni byddai ar ei bregeth
Ol dysg na golau dawn,
Ond byddai'n llawn cynghorion gwiw
A ffydd ddiniwed iawn.

CERDDI HEDDIW

Nid oedd yn Llan y Mynydd
Ond cant o deios mân,
Cartrefi gweithwyr gwael eu ffawd,
Yn ddigon tlawd, ond glân.

Y cyflog, bychan fyddai,
A'r teulu yntau'n fawr,
A gwyddai'r gweithwyr beth oedd bod
Heb obaith lawer awr.

Pan fyddai'r gae'n erwin,
A'r gwaith yn brin ryw bryd,
Y bugail druan oedd eu tŵr
A'u swcwr hwy i gyd.

Ymwelai â'r cartrefi,
Gwrandawai'r stori brudd,
A rhoddai swllt i lawer un,
A'r deigryn ar ei rudd.

Pan ddeuai angau heibio
A'i law ar dro yn drwm,
Fe geisiai roddi cysur llon,
A'i galon fel y plwm.

Wrth erchwyn gwely angau
Bu'n sefyll lawer gwaith,
A'i law a'i lygad yn rhoi help
Nas gallai unrhyw iaith.

GWEINIDOG LLAN Y MYNYDD

Bedyddiai blant yr ardal,
Priodai gyplau'r fro,
Efô anfonai weddi fry
Uwch ben y gwely gro.

Pan ddôi alarus newydd
Am un o blant y fro,
A fai ar led, lle bynnag bai,
Fe ddeuai iddo fo.

Fe fedrai dorri'r newydd
Mewn geiriau tyner, mwyn,
A phery felly fod y loes
A'r groes yn haws i'w dwyn.

Pan fyddai'r plant yn chwarae,
A'r chwarae'n troi yn chwith,
Fe ddygai gair y bugail wên
Fel heulwen ar y gwllith.

A phan ddigwyddai gweryl,
Neu helbul yn y fro,
Ei air a ddygai gymod iach
Ar chydig bach o dro.

Bu fyw flynyddoedd meithion
Mewn llety bychan llwyd,
Llom a chyffredin oedd ei wisg,
Cartrefol oedd ei fwyd.

CERDDI HEDDIW

'Roedd ganddo fwrdd a chadair,
A silffoedd, un neu ddwy,
I ddal ei lyfrau digon prin,
Ei ddodrefn, dyna hwy.

Nid ydoedd ei anghenion
Ond bychain iawn yn wir ;
A gaffai, rhannodd ef ar hyn
Am lawer blwyddyn hir.

Os gwybu'r wlad amdano,
Fe wybu am fod rhai
Yn sôn mai bychan oedd ei ddawn,
A bod ei ddysg yn llai.

Ond gwybu llawer truan
Ei fod er hynny'n ddyn,
A bod ei galon a'i hystôr
Yn fwy na nemor un.

Mae rhai ar led y gwledydd
Yn llwyddo ar eu hynt,
Yn cofio'r gŵr bonheddig tlawd
Fu'n gefn mewn anffawd gynt.

Ni ddysgodd lawer iddynt
O bethau rhyfedd byd,
Ond dysgodd hwynt i fod yn ddewr
Eu bron a hael eu bryd.

GWEINIDOG LLAN Y MYNYDD

Newidiodd rhai eu crefydd,
A chollodd eraill hi,
Aeth rhai yn erbyn llawer ton
Ac eraill gyda'r lli.

Ond nid oes un ohonynt
Nad annwyl ganddo'r co
Am fugail Llan y Mynydd gynt
Lle bynnag byth y bo.

Gweinidog Llan y Mynydd,
Gwn am dy feddrod llwyd,
Ond od oes nef tu draw i'r bedd,
Mi wn mai yno'r wyd.

Y Bardd.

PAN oedd ef yn llanc penfelyn
Gartref ar y mynydd gynt,
Hoffai glywed cainc y delyn,
Carai wrando ar sŵn y gwynt.

Carai grwydro rhwng y blodau,
Ac ymgolli dan y dail ;
Gwelodd yno ryfeddodau
Fyth na chanfu ef eu hail.

Dysgodd lu o draddodiadau,
Chwedlau gwyll y duwiau gynt ;
Aeth drŵy fywyd gwyllt ei dadau
Hyd y rhosydd, yn y gwynt.

Ag efô yn mynych grwydro
Gan freuddwydio ar yr hynt,
Gwelodd fannau lle bu frwydro
Dros y fraint a gollwyd gynt.

Carodd hanes tywysogion
Cymru pan oedd eto'n rhydd,
Arthur Frenin a'i Farchogion,
A ddaw'n ôl pan ddêl y dydd.

Y BARD D

Chwiliodd lawer am yr ogo
Lle maent hwy yn huno'n hir,
Nes bod galwad a'u harfogo
Unwaith eto dros eu tir.

Gwelodd hyd y moelydd brychion
Llawer llw, wrth olau'r lloer,
Heibio yn eu gwisgoedd gwyhion
Yn ymdeithio'n fud ac oer.

Coch a du a gwyrdd a melyn,
Glas a gwyn eu gwisgoedd cain,
Gwiw eu golwg—gwae y gelyn
Yn y rhuthr o flaen y rhain !

Yn y niwloedd oer a llwydion,
Collai hwy ar glais y wawr,
Ond ni pheidiodd â'i freuddwydion
Am ddyfodiad Arthur Fawr.

Hyfryd oedd y dyddiau hynny,
Teg a rhyfedd oedd y byd,—
Pan orffenno'r enaid synnu,
Cyll ei dwf a'i nerth i gyd.

Gwelodd flodau'r haf yn heidio
Llawer tro ar frigau'r drain,
Ond ni allodd unwaith beidio
A rhyfeddu at y rhain.

CERDDI HEDDIW

Ond yn nhreigliad y blynyddoedd,
Mynd a ddarfu iddo ef
O dawelwch y mynyddoedd,
Lle mae'r ddaear yn y nef.

Yn y dref yn flin ei drafael
Wedyn cafodd lawer croes,
Ond ni chollodd ef ei afael
Ar freuddwydion bore oes.

Gwybu estron draddodiadau,
Dysgodd bennaf ieithoedd byd ;
Iaith a hanes gwlad ei dadau,
Mwy y carodd hwy o hyd.

Hir freuddwydiodd ganu cerddi
A rôl fri i'w fro ei hun,
Gwneuthur llawer gorchest erddi
A'i chyfodi'n uchaf un.

Bod a geisiai yn lladmerydd
Syndod enaid drwy ei hun,
A mynasai roi lleferydd
I ieuenctid ysbryd dyn.

Taerwyd mai oferedd ydoedd
Ei freuddwydion oll i gyd ;
Eto unig fyd y bydoedd
Oeddynt iddo ef o hyd.

Yn ei galon fe ddychmygodd
 Ieuanc fyd heb wae na chŵyn ;
 Credodd ynddo a dirmygodd
 Aur ac arian er ei fwyn.

Wyched oedd ei weledigaeth,
 Uched oedd ei gais ef gynt !
 Ond yn nydd y brofedigaeth
 Chwalwyd hwythau gyda'r gwynt.

Daeth tynghedfen i wahanu
 Rhyngddo ef a'i freuddwyd fyd ;
 Mae y cerddi heb eu canu,
 Yntau'r bardd yn adfail mud.

Gwrthun, ebe gwŷr y geiniog,
 Ofer oedd ei lafur ef,
 A'i ddychymyg ffôl, adeiniog,
 Melltith oedd, nid bendith nef.

Ni wŷr yntau mo'r llawenydd
 Gynt a wyddai, truan yw ;
 Collodd ryddid yr awenydd,
 Od yw'n bod, nid ydyw'n byw.

Ond er dyfod cwymp alaethus
 Ar y byd a wnaeth y bardd,
 Mynych dry ei drem hiraethus
 At y lle bu'r breuddwyd hardd.

Y Conach.

CADWAI'i hendaidd yn y dref
 Le i ddarllaw diod gref ;
 Nid oedd hynny ynddo'i hunan
 Glod nac anglod iddo ef.

Byddai wrthi fore a hwyr,
 Gwnâi bob peth a wnâi yn llwyr ;
 Beth cyn hynny oedd y teulu,
 Nid oes heddiw neb a'i gŵyr.

Ond fe gasglodd lond ei god,
 Ac am hynny cafodd glod,
 Codwyd ef yn ustus heddwch—
 Un o'r swyddi penna'n bod.

Daeth y teulu yn ei flaen,
 Er mai cas oedd cofio staen
 Masnach ar yr hendaidd hwnnw,
 Ond mae aur yn gwella'r graen.

Aeth y taid i fyw i'r wlad,
 Prynu tir a wnaeth y tad,
 Gwnaed e'n farchog am na chafodd
 Fynd i'r Senedd er ei stad.

Y CONACH

Aeth y mab pan ddaeth ei dymp
I ysgolion mawr eu camp,
A daeth adref o Rydychen
Wedi dysgu rhwyfo'n rhemp.

Pennaf peth yng ngolwg hwn
Ydoedd fedru trin y gwn ;
Ni bu ail er dyddiau Nimrod
Iddo yn yr hollfyd crwn.

Carai ef yn fawr ei froch
Gŵn a meirch a siaced goch,
Rhwygo gwrychoedd, â'r ac egin,
Rhegi'n greulon, gweiddi'n groch.

Caed fod hynny cyn bo hir
Wedi codi staen y bir,
A'i fod yntau'n deilwng bellach
O gymdeithas benna'r tir.

Nid oedd goedydd ar ei stad—
Wyr tafarnwr oedd y tad—
Felly nid oedd yno loches
I bryfetach gwylltion gwlad.

Rhaid cael coed i'w magu hwy
A mieri fwy na mwy,
Lle câi ieir y coed a phetris
Gysgod braf o hanner plwy.

CERDDI HEDDIW

O'u cartrefi hen cyn hir,
Gyrrodd ddynion gorau'r sir,
Dygodd yn eu lle lwynogod—
Onid eiddo ef y tir?

Bellach, magu yno mae
Adar hanner dof, na bae
Neb o'r helwyr gynt a'u saethai
Mwy nag ieir ar gwr y cae.

Wele'r Conach wrth ei waith
Heddiw ar yr helfa faith,
A'i gyfeillion yn ei ganlyn
Megis byddin ar ei thaith.

Rhaid wrth lu o wŷr a ffyn
I ddychrynu'r adar syn
Cyn y codant ar yr asgell
Fel y saetho'r helwyr hyn.

Saif y Conach yntau draw,
Dau o ynnau at ei law,
Dyn i'w llwytho'n barod iddo,
Hwythau'n clecian yn ddi-daw.

Cwypmp yr adar wrth ei draed
Gan ymgreinio yn eu gwaed,
A'i ddig anian ni ddigonir,
Digon iddi 'rioed ni chaed.

Y CONACH

Hyd y llawr yn glytiau briw,
Gwinga rhai yn hanner byw,—
Cam ar druan fod yn greulon,
Camp ar ŵr cyfoethog yw.

Ar ddifyrrwch mae ei fryd,
Am ddifyrrwch tâl yn ddrud,
A'i ddifyrrwch unig ydyw
Lladd a lladd a lladd o hyd.

A'i ddifyrrwch ni rydd hoen,
Lledu'n llidiog mae ei ffroen,
Creulon yw ei wanc ddiderfyn
Ef am ladd a pheri poen.

Chwerwaf cad a fu erioed
Lladdfa'r adar yn y coed,
Pennaf lladdwr oedd y Conach,
Mawr y moliant iddo a roed.

Fore arall gyda'r wawr
Clywir corn y Conach mawr ;
Gwae lwynogod yr ardaloedd,
Ar eu hôl y mae yn awr !

Rhuthra yn ei lidiog chwant
Heibio'r gŵr sy'n talu'r rhent,
Ac ni thry ag edrych arno
Mwy na'r llwch sydd ar ei hynt.

CERDDI HEDDIW

Dacw'r meirch yn tyrru'n chwyrn,
Chwardd y Conach ar y wern
Weld y cŵn yn llarpio'r llwynog
Yn y canol bob yn ddarn.

Ar dy liniau, dos i lawr,
Ddyn, a thyn dy gap yn awr,
Gwybydd di i'th lygad weled
Prif ogoniant Prydain Fawr.

NODIADAU.

Merch y Mynydd. Mewn aml fan yng Nghymru, ceir y chwedl am wŷr yn priodi un o'r Tylwyth Teg, tan yr amod na threwid moni â haearn. Pan ddigwyddai hynny, diflannai hithau. Yn y gerdd hon cymerir mai un o'r bobl oedd yn byw yn y wlad o flaen y Brythoniaid oedd y ferch. Teitl y gerdd yn yr argraffiadau cyntaf oedd "Merch yr Iberiad." Gan nad ydys bellach mor sicr am yr Iberiaid, newidiwyd y teitl rhag camarwain.

Caradog. Y dewraf o frenhinoedd y Brythoniaid a fu'n ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid. Tacitus sy'n adrodd yr hanes amdano'n garcharor yn Rhufain.

Arthur Gawr. Adroddir y chwedl am dynnu'r cleddyf o'r maen gan Sieffre o Fynwy, ac eraill. Y mae ystori debyg mewn gwledydd eraill hefyd.

Ogof Arthur. Y mae'r chwedl fod Arthur a'i wŷr yn cysgu mewn ogof i'w chael ar hyd a lled Cymru, a cheir ystori debyg am ryw arwr neu gilydd mewn gwledydd eraill.

Maelgwn Gwynedd. Brenin Gwynedd yn y chweched ganrif. Gweler y traddodiad y seiliwyd y gerdd arno yn *Hanes Cymru*, Syr Owen Edwards, Caernarfon, 1895, Cyf. I, td. 62.

Coron Cadwaladr. Ceir yr ystori y seiliwyd y gerdd arni yng ngwaith Sieffre o Fynwy.

Cynfrig Hir a'r Brenin. Adroddir ystori'r gerdd hon yn "Hanes Gruffudd ap Cynan." Gweler *The Hist. of Gr. ap Cynan*, Arthur Jones. Manchester, 1910, td. 132-4.

Owain a Nest. Mab i Gadwgan, tywysog Powys, oedd Owain, a merch i Rys ap Tewdwr oedd Nest. Gŵr gwyllt, anwadal, oedd Owain. Bu'n codi'r Cymry yn erbyn y Normaniaid; bu ar ffo yn Iwerddon, a throes wedyn i hela ei gydwladwyr ei hun a'u dwyn yn garcharorion i'w feistriaid. Ym *Mrut y Tywysogion* ceir ei hanes yn llosgi Castell Cenarth ac yn dwyn Nest oddi ar ei gŵr, Gerallt Ystiward. Lladdwyd ef yn y diwedd gan y Fflemisiaid mewn brwydr yn y nos.

Gwenllian. Gwraig Gruffudd ap Rhys, tywysog Deheubarth, merch Gruffudd ap Cynan, tywysog Gwynedd, oedd Gwenllian. Tra'r oedd Gruffudd ap Rhys yng Ngwynedd yn gofyn cymorth, ymosododd y Normaniaid a'r Fflemisiaid ar ei gastell, a lladdwyd Gwenllian yn arwain byddin fechan ddewr yn eu herbyn.

Ednyfed Fychan. Seiliwyd y gerdd ar ystori am Ednyfed Fychan, o Dre Garnedd ym Môn, yn dychwelyd adref wedi bod yn y Groesgad, ar ddydd priodas ei wraig â gŵr arall. Ceir ystoriau tebyg mewn gwledydd eraill.

G E I R F A .

- aer: brwydr, *battle*.
 anghyfannedd: lle na bo pobl yn byw, *uninhabited*.
 alltud: estron, *exile*.
 alltudio: gyrru un o'i wlad.
- bâr: dig, llid, *anger*.
 baidd: tryd. pers. unig., amser presennol, o'r berfenw *beiddio, to dare*.
 bas: gwael, salw, *base*.
 Brawd: mynach, *a friar*.
 Bryneich: darn o Loegr gynt, *Bernicia*.
- canwelw: lliw gwynllwyd, *pale*.
 cannaid: lliw gwyn disglair.
 conach: *upstart*.
 Creirwy: Sonnir amdani fel un o'r merched harddaf oedd yn llys Arthur.
 crwydrad: un ar grwydr, cerddedwr, *wanderer*.
 cwyledig: wedi ei gŵyro, *waxed*.
 cyfliw: o'r un lliw; dywedir "cyfliw gŵr a llwyn" am wyll y nos, pan na ellir gwahaniaethu rhwng pethau.
- cyhyrog: gewynnog, *muscular*.
 cymryd y groes: term a arferid yng Nghymru gynt am fyned i'r Groesgad, *Crusade*.
 cyrchu: mewn ystyr filwrol, myned yn erbyn, ymosod, *to attack*.
- darpar gwraig: dyweddi.
 Enw, ac nid ansoddair, yw *darpar*, felly ni feddelir cytsain gyntaf enw a'i dilynno yn y cyflwr perthyn.
 dedryd: dedfryd, barn, *judgment*.
 Deifr: Darn o Loegr gynt, *Deira*.
 diffeithio: difa, dinistrio, *destroy, sack*.
 drudion: rhai dewr, *brave*.
 Felly yn yr enw lle, *Cerrigy-drudion*.
 dyfyn: gwŷs, galwad, *summons*.
- Eingl: *Angles*.
 Esyllt: merch i frenin Iwerddon, yn ôl y chwedl, a garai *Dristan*.

- Fflandrwyd: *Flemish*. Gelwir hefyd *Fflemisiaid* yn Gymraeg.
- ffriw: wyneb, gwedd, *courtenance*.
- Garwy Hir: Ni wyddys ddim o'i hanes, ond dywed y *Triodd* a'r beirdd ei fod yn caru Creirwy yn fawr iawn.
- gefynnau: rhwymau, *shakles*, *manacles*.
- goddaith: tân; goddeithio: llosgi eithin a drain yn y gwanwyn.
- gosgeiddig: lluniaidd, *stately*.
- gosgordd: canlynwyr, *retinue*.
- gwanegau: tonnau, *waves*.
- gweryd: daear, pridd; arferir am y *bedd*.
- gwineu: lliw dugoch, *bay*.
- gwledig: pennaeth, arglwydd, *sovereign*.
- gwryd: gwroldeb, *bravery*.
- gwyll y duwiau: y cyfnod y credid mewn duwiau lawer, *Götterdämmerung*.
- gwyrrh: yn y term *meini gwyrrh*, *precious stones*.
- hafal: tebyg, cyffelyb, *equal*.
- hwrdd: rhuthr, *onset*. Berfenw, *hyrddio*.
- iarll: *earl*.
- lladmerydd: dehonglwr, *interpreter*.
- lladd: lladdwyd, *was killed*.
- Llyn Syfaddon: llyn yn Sir Frycheiniog. Yr oedd traddodiad y canai'r eleirch oedd arno pan âi cyfiawn dywysog y wlad heibio.
- llyw: rheolwr, *ruler*. Berfenw, *llywio*.
- merddwr: y dwfr du a welir mewn pyllau ar fynydd neu fawnog.
- mynaich: ffurf luosog *mynach*, *monk*.
- oed: amod, *appointment*.
- paladr: gwaew, *spear*; lluosog, *pelydr*.
- palffrai: ceffyl ysgafn, *palfrey*.
- pali: math o sidan, *brocaded silk*.
- pedrain: rhan ôl march neu anifail arall, *crupper*.
- pîn: math o bren, *pine*.
- porth: swcwr, help, *aid*.
- rhemp: tros ben, o dda neu ddrwg, gan amlaf o ddrwg, megis yn y dywediad, *lle bo camp bydd rhemp*.

GEIRFA

rhên: arglwydd, Duw.
rhi: arglwydd, brenin.
rhiain: arglwyddes; lluosog,
rhianedd.

rhos: gweundir, *moor*, lluosog,
rhosydd.

seirch: trec meirch, *harness*,
trappings.

sindal: math o ddeunydd,
sendal.

tâl: talcen, megis yn yr
enwau *Tal-y-bont*, *Tal-y-llyn*
Hir oedd yr *a.*

teisbanau: *tapestries.*

têr: gloyw, claer, *bright.*

tidau: cadwynau, *chains*, unig.
tid. Y mae'r gair yn gyff-
redin o hyd, er a ddywed
rhai geiriadurwyr.

Tristan: Ef a aeth i Iwerddon
i ymofyn *Esyllt* yn wraig i

Farch, brenin Cernyw, ond
a'i carodd hi ei hun a
hithau yntau.

trywydd: ôl neu lwybr
creadur, *track*, *scent.* Ffurf
gyffredin hyd heddiw.

twrreimaint: *tournament.*

twrld: twrf, sŵn, *commotion.*

t ymp: amser, tymor, *time*,
season.

unben: brenin, pennaeth,
monarch.

uthr: rhyfeddol, *marvellous.*

ymgreinio: ymdreiglo ar
lawr fel y bydd march,
wallowing.

ymgyrch: mynd i ryfel, *ex-*
pedition, *attack.*

ymherodr: *emperor.*

ynad: ustus, barnwr, *justice.*

ystent: o'r Saes. *extent*; achau,
pedigree.

ARGRAFFWYD_GAN HUGHES A'I FAB, WRECSAM.

